## 1. Rheoliadau Gweithiau Morol (Asesiad Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliad 22 – penderfyniad cydsyniad Asesiad Effaith Amgylcheddol

**1.1. Teitl:** Gosod cebl tanddaearol gan ddefnyddio Dril Cyfeiriadol Llorweddol

**1.2 Cymeradwyaeth Reoleiddiol:** Rheoliadau Gweithiau Morol (Asesiad Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd)

**1.3 Gweithredwyr**: Western Power Distribution Ltd

**1.4 Rhif Cais y Drwydded Forol:** CML1551

**1.5 Lleoliad:** Afon Tywi

Ochr ddeheuol – 243259 Dwyrain 220127 Gogledd

Ochr ogleddol – 243452 Dwyrain 220159 Gogledd

## 2. Diben

**2.1** Mae'r ddogfen hon yn cynnwys penderfyniad cydsyniad Asesiad Effaith Amgylcheddol o dan Reoliad 22 Rheoliadau Gweithiau Morol (Asesiad Effaith Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd), o ran cais am Drwydded Forol (CML1551) a gyflwynwyd gan Western Power Distribution Ltd.Ategwyd y cais gan Ddatganiad Amgylcheddol. Mae'r Tîm Trwyddedu Morol wedi ystyried y cais a'r wybodaeth a gyflwynwyd i'w ategu ac rydym bellach yn gallu gwneud penderfyniad cydsyniad Asesiad Effaith Amgylcheddol ar gyfer Western Power Distribution Ltd.

**2.2** Yn unol â Rheoliad 22 y Rheoliadau Gweithiau Morol, mae Tîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru, fel yr awdurdod priodol, wedi ystyried y cais, y datganiad amgylcheddol, a sylwadau gan gyrff ymgynghori ac aelodau o'r cyhoedd, ac wedi rhoi sylw i'r ddeddfwriaeth berthnasol. Yn dilyn casgliad a wnaed gan Asesiad Sgrinio dros Ffiniau, penderfynwyd na fyddai'n rhaid ymgynghori â gwladwriaethau eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.

## 3. Cais

**3.1** Mae Western Power Distribution Ltd wedi cyflwyno cais am Drwydded Forol er mwyn gosod cebl tanddaearol o dan Afon Tywi gan ddefnyddio Dril Cyfeiriadol Llorweddol i hwyluso'r datblygiad fferm wynt ar y tir – Coedwig Brechfa.

## 4. Y Datganiad Amgylcheddol – Rheoliadau Gweithiau Morol 12 (1) (d)

**4.1** Gwnaeth y Datganiad Amgylcheddol amlinellu effeithiau posibl y prosiect arfaethedig a drefnwyd o dan y penawdau canlynol:

**4.2** Penodau technegol:
- Defnydd tir, amaethyddiaeth a choedwigaeth
- Tirwedd ac asesiad gweledol
- Ecoleg
- Yr amgylchedd hanesyddol
- Daeareg, hydroddaeareg ac amodau tir
- Hydroleg a pherygl llifogydd
- Sŵn a dirgryndod
- Ansawdd yr aer
- Asesiad cronnol ac o gydberthnasau

**4.3**. Ystyrir bod y Datganiad Amgylcheddol yn bodloni gofynion Rheoliad 12 (1) (d) ac Atodlen 3 y Rheoliadau Gweithiau Morol.

## 5. Hysbysiadau Cyhoeddus – Rheoliadau Gweithiau Morol 16(2)(g)

**5.1** Cyhoeddwyd y rhain er mwyn hysbysu partïon sydd â diddordeb am y gwaith arfaethedig a chynnig y cyfle i unrhyw bartïon neu aelodau o'r cyhoedd i wneud sylwadau ar y cais yn ôl yr angen.

**5.2** Cyhoeddwyd y dogfennau cais fel a ganlyn:
- Rhoddwyd hysbysiad cyhoeddus a gyfieithwyd yn y Carmarthen Journal ar 24 Chwefror 2016 a 2 Mawrth 2016.
- Roedd y dogfennau cais ar gael i'r cyhoedd yn: Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Cyngor Sir Caerfyrddin, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin, SA3 1LQ, am 49 diwrnod yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad cyhoeddus cyntaf.
- Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan y cyhoedd.

## 6. Ymgynghoriad – Rheoliadau Gweithiau Morol 17(1)(a)(iv)

**6.1** Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cais am Drwydded Forol ar 18 Chwefror 2016 am gyfnod o 42 diwrnod. Anfonwyd ef at y cyrff ymgynghori canlynol:

6.2 Arbenigwyr Technegol Cyfoeth Naturiol Cymru, y Weinyddiaeth Amddiffyn, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, Ystad y Goron, Awdurdodau Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin, yr Awdurdod Harbwr Lleol, Cymdeithas Porthladdoedd Prydain, Swyddogion Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin, y Gymdeithas Hwylio Frenhinol, Trinity House, Cadw, Cangen

Bysgodfeydd Llywodraeth Cymru, Swyddogion Gorfodi Morol, ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru

**6.3** Gwnaeth sylwadau gan y sefydliadau canlynol: Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau

**6.4** Tybiwyd nad oedd sylwadau i'w gwneud gan y sefydliadau nad oeddent wedi ymateb.

## 7. Safleoedd a ddiogelir dan gyfraith Ewrop

**7.1** Mae'r cynnig arfaethedig wedi'i leoli o fewn safle a ddiogelir dan gyfraith Ewrop.

**7.2** Ystyriwyd effaith y cynnig arfaethedig ar y Safleoedd Ewropeaidd canlynol, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried eu nodweddion a'u hamcanion cadwraeth wrth iddo benderfynu ar y drwydded:

- Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Tywi
- Gerllaw Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Caerfyrddin ac Aberoedd

**7.3** Cynhaliwyd prawf o'r effaith sylweddol debygol a phenderfynwyd y gellid diystyru effeithiau sylweddol posibl ar nodweddion y Safleoedd Ewropeaidd a nodir uchod. Daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r cynnig arfaethedig, pan ystyriwyd ef ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad, yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle(oedd) Ewropeaidd dan sylw.

**7.4** Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cynnwys rhagor o ddisgrifiadau manylach.

**7.5** Tybiwyd nad oedd sylwadau i'w gwneud gan y sefydliadau nad oeddent wedi ymateb.

## 8. Materion i'w hystyried mewn perthynas â’r Datganiad Amgylcheddol, y cais am Drwydded Forol, a'r sylwadau a dderbyniwyd

**8.1** Wrth i ni benderfynu ynglŷn â chydsyniad Asesiad Effaith Amgylcheddol Rheoliad 22, rydym wedi ystyried y materion sydd wedi eu nodi ar ôl ystyried y Datganiad Amgylcheddol, sylwadau gan gyrff ymgynghori, ac unrhyw wybodaeth ategol ganlyniadol a roddwyd mewn ymateb gan yr ymgeisydd.

**8.2** Mae'r materion perthnasol a amlygwyd yn y Datganiad Amgylcheddol a'r broses ymgynghori ac i ba raddau y maent wedi derbyn sylw yn cael eu nodi yn yr adran hon.

**8.3** Ni wnaed unrhyw sylwadau gan y sefydliadau canlynol: Diogelu y Weinyddiaeth Amddiffyn, y Gymdeithas Hwylio Frenhinol, Trinity House, Cyngor Sir Caerfyrddin.

### 8.4 Ecoleg

**8.4.1** Mynegwyd pryderon gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â dyfnder y Dril Cyfeiriadol Llorweddol oherwydd yr effeithiau ar y safle dynodedig a'i nodweddion. Mynegwyd pryderon

ynglŷn â nifer o bysgod mudol, sef y wangen, yr herlyn, llysywen bendoll yr afon, llysywen bendoll y nant a llysywen bendoll y môr, oherwydd yr amhariad a fyddai'n cael ei achosi gan ddirgryndod sŵn a'r perygl o ddifwyno'r amgylchedd.

**8.4.2** Mynegwyd y pryderon uchod yn ystod cyfarfodydd cyn gwneud cais rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Western Power Limited a chynigiwyd nifer o amodau yn dilyn y cyfarfodydd hyn. Cytunodd yr ymgeisydd y byddai dyfnder y Dril Cyfeiriadol Llorweddol a'r adeg pan wneir y gwaith yn cael eu rheoli, a fyddai'n lleihau'r risg i rywogaethau sensitif a physgod sy'n mudo. Bydd cynllun rheoli cynefinoedd yn cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo gan Gyfoeth Naturiol Cymru, yn gweithredu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu, a bydd hwn yn cynnwys manylion ynglŷn â monitro. Mae'n rhaid hefyd cyflwyno cynllun rheoli adeiladu amgylcheddol i Gyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys y manylion canlynol: rheoli gwastraff, atal llygredd a chynllun ymateb mewn argyfwng. Mae angen darparu cynllun 'frac-out' wrth gefn fel modd o ddiogelu rhywogaethau sensitif pe byddai damwain yn digwydd.

**8.4.3** Cysylltodd y Tîm Trwyddedu Morol â'r ymgeisydd ac mae'r ymgeisydd yn ymwybodol eisoes o'r ceisiadau hyn oherwydd y broses Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Bydd y Tîm Trwyddedu Morol yn cynnwys y gofynion hyn fel amodau o dan y Drwydded Forol. Nid yw rhai o'r sylwadau a gyflwynwyd gan arbenigwyr technegol Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud â'r Drwydded Forol yn unig, ac yn dilyn trafodaethau rhwng y Tîm Trwyddedu Morol ac arbenigwyr technegol Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'r Tîm Trwyddedu Morol wedi penderfynu y gellid cael gwared ar rai o'r amodau a awgrymwyd o'r Drwydded Forol. Mae'r amodau mwy generig hyn eisoes yn dod o dan y Gorchymyn Caniatâd Datblygu.

**8.4.4** Tynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru sylw at y ffaith y gallai aflonyddwch o ganlyniad i weithgareddau adeiladu amharu ar ddyfrgwn sy'n cymudo ac yn chwilota am fwyd. Gallai digwyddiadau llygri effeithio ar ansawdd y dŵr ac arwain at gynnydd mewn llwytho gwaddodion.

**8.4.5** Yn dilyn trafodaethau rhwng yr ymgeisydd a Chyfoeth Naturiol Cymru, cytunwyd i gynnal arolygon cyn adeiladu ar ddyfrgwn, ac ni fydd y cynnig yn parhau hyd nes y ceir tystiolaeth i ddangos nad oes dyfrgwn yn byw yno neu'r bydd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno ar y gwaith lliniaru arfaethedig, gan weithredu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu.

**8.4.6** Bydd y Tîm Trwyddedu Morol yn cynnwys hyn fel rhan o amodau'r Drwydded Forol.

### 8.5 Yr amgylchedd hanesyddol

**8.5.1** Cododd Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed y cwestiwn ynglŷn â chynnwys mesurau lliniaru o ran yr amgylchedd hanesyddol o fewn y drwydded forol a'r ddogfen gynllunio fel ei gilydd. Cysylltodd y Tîm Trwyddedu Morol ag Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed i sicrhau p'un a oeddent yn fodlon neu beidio â'r mesurau lliniaru fel yr oeddent yn ymddangos yn y

Gorchymyn Caniatâd Datblygu neu a oeddent yn credu y byddai angen eu cynnwys yn y Drwydded Forol.

**8.5.2** Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed yn fodlon â'r amodau o fewn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu a'r mesurau lliniaru a nodwyd yn y Datganiad Amgylcheddol.

**8.5.3** Bydd y Tîm Trwyddedu Morol yn cynnwys llai o fesurau lliniaru o ran yr amgylchedd hanesyddol gan eu bod nhw'n fodlon bod y rhain wedi'u cynnwys o fewn cydsyniadau eraill a gwybodaeth ategol.

**Gwerthusiad Rheoleiddio a phenderfyniad cydsyniad Asesiad Effaith Amgylcheddol**

Wrth ystyried y cais i osod cebl tanddaearol o dan Afon Tywi, ystyriwyd y canlynol:

- Y Datganiad Amgylcheddol, gan gynnwys y mesurau lliniaru arfaethedig;
- Darpariaethau perthnasol Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009; ac
- Y sylwadau a dderbyniwyd amdanynt.

Mae'r Tîm Trwyddedu Morol wedi penderfynu bod yr effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â defnyddio Dril Cyfeiriadol Llorweddol o dan yr afon i gynorthwyo gyda'r fferm wynt ar y tir ym Mrechfa wedi cael eu nodi, eu disgrifio a'u hasesu'n ddigonol, a gall mesurau lliniaru gael eu sicrhau a fyddai'n ddigonol i warantu bod y drwydded forol yn cael ei chymeradwyo.

**Wedi'i gymeradwyo**

**Llofnodwyd:**

**Dyddiad:** 04/07/2016

Cymeradwywyd gan: Eleanor Smart

**Llofnodwyd:**

**Dyddiad:** 30 Tachwedd 2016